# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Twm Tri (3)** |
| Adnoddau: | Poster – *gweler y ddogfen 'Twm Tri – poster'*. |
| Camau: | Cam 1 - Darllenwch a thrafodwch y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Twm Tri'.<br><br>Cam 2 - Edrychwch ar y poster fel dosbarth neu mewn grŵp - *gweler y ddogfen 'Twm Tri – poster'*. Trafodwch yn gyffredinol yr hyn sydd yn y llun.<br><br>Cam 3 - Atgoffwch y dysgwyr o Twm Tri yn y llyfr. Gofynnwch 'Allwn ni ddarganfod Twm Tri yn y llun?'<br><br>Cam 4 - Anogwch y dysgwyr i fynd i grwpiau o 3. Oes rhywun ar ôl? Sawl grŵp o 3 sydd?<br><br>Cam 5 - Gofynnwch i'r dysgwyr ydyn nhw'n gallu darganfod eitemau eraill o dri yn y llun. |
| Cwestiynu: | - Beth ydych chi'n gallu ei weld yn y llun?<br>- Sawl blodyn sydd?<br>- Sawl … sydd yn y llun?<br>- Oes 3 … yn y llun?<br>- Allwch chi ddarganfod 3…?<br>- Sawl grŵp o 3 sydd?<br>- Allwch chi ffurfio 3? |
| Beth nesaf? | Ewch allan i'r ardal allanol. Ydych chi'n gallu gweld 3 aderyn yn yr awyr? 3 cwmwl yn yr awyr? 3 coeden? 3 blodyn? |

